"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1890. [RHIF 30.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Yr Eglwys	121
Y Sulgwyn	123
Llinellau o gydymdeimlad	125
Undeb yr Enwadau yn Nghymru	126
Addoli Duw	127
Nefoedd	129
Y Genedl Gymreig a'r Blaid Ryddfrydig	129
Cywreinrwydd Hynafiaethol	131
Ymweliad a'r Amerig	133
Y Chwech Synwyr	136
Yr Alltud	137
Nodynau Gwasgarog	140
Manion a Hanesion	142
Marwgofion	143

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—T.Ll., Porthcawl; E.J., Aberdar; W.L., Pontypridd; D. T., Liverpool; J.L., Dowlais; D.E., Troedyrhiw.

Carwn yn wylaidd awgrymu fod y taliadau yn dyfod i fewn yn araf iawn. Yr wyf yn wir ddiolchgar am ffyddlondeb y dosparthwyr yn y gwahanol fanau, ac yn hyderu y parhant felly etto yn y dyfodol.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,

CEFNCOED,

NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

CAPEL-Y-FADFA.

Cynnelir Cyfarfod Blynyddol Undodiaid Cymru yn Nghapel-y-Fadfa, dydd Mercher a dydd Iau, Mehefin y 25ain a'r 26ain. Y pregethwr appwyntiedig, y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. Dysgwylir i'r Parch. W. Parry, Penybont-ar-Ogwy, ddarllen papyr ar "Grefydd a Gwleidyddiaeth." Y cyfarfodydd i ddechreu nos Fercher, am 6.30, dydd Iau. am 10, 2.30, a 6.30. Ar ddiwedd cynnadledd prydnawn dydd Iau cynnelir cyfarfod o Undeb Gweinidogion Sir Aberteifi. Groesaw calonog i bawb yn llen a lleyg. W. J. DAVIES.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDARE.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1890. [RHIF 30.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

YR EGLWYS.

WRTH eglwys y golygwn, nid adeilad, megys coed a cherryg, priddfeini a mortar, ond corff o ddynion addolgar, amcan yr hwn yw cario yn mlaen waith Iesu Grist yn y byd gyda golwg ar ba beth yw, yn mha le y mae, a pha beth a all ei gynnyg i'r byd.

Y mae, yn gyntaf peth, yr hyn allwn ei alw y meddylddrych offeiriadol, yr hyn yw, fod yr eglwys yn gyfansoddedig o gorff parhaol wedi ei bennodi yn Ddwyfol—fod yr eglwys yn gorff parhaol, wedi ei neillduo fel yr unig gyfrwng o ras Duw. Y mae y sawl sydd yn dal y syniad neu y meddylddrych hwn yn gosod allan fod yr offeiriad yn sefyll yn lle Crist, ac iddo ef y mae y gallu wedi cael ei gyflwyno i weinyddu yr ordinhadau ydynt yn porthi mewn gwirionedd, yn puro ac yn achub yr enaid; y maent hefyd yn credu nad oes ond ychydig neu ddim gobaith am iachawdwriaeth i'r sawl sydd y tu allan i'r eglwys. Ond y mae hwn yn feddylddrych sydd yn hollol groes i gyfiawnder a thrugaredd Duw, i yspryd a dysgeidiaeth yr Iesu, ac i synwyr cyffredin. Nid yw yr offeiriad ddim ond dyn yn unig, ac ni all fod ganddo ddim gallu gwyrthiol naill ai i gael neu i roddi iachawdwriaeth, ac ni all yr eglwys fyth fod yn fwy nâ chymdeithas o ddynion, y rhai ydynt mor debyg o gamsynied â'r rhan arall o ddynolryw.

Y mae yr ail feddylddrych yn myned i eithafion i'r ochr arall. Gallwn ei alw y *meddylddrych bydol*. Dengys yr olwg hon yr eglwys fel sefydliad addysgol—yn ddefnyddiol yn unig fel y mae yn ymdrechu cyfranu addysg, ac o werth cydraddol i'w llwyddiant yn y ffordd hon. Ond nid yw y meddylddrych hwn yn cymmeryd un sylw o lawer o angenrheidiau y mae yr eglwys yn addasedig neillduol i'w cyflenwi. Nid deall neu ddealldwriaeth ydym i gyd, a safwn mewn angen am

rywbeth mwy nag addysg ddefnyddiol: y mae genym gyffroadau, teimladau, a gorawyddau, ac y mae y rhai hyn yn sefyll mewn angen i gael eu cyfarfod, a gellir eu cyfarfod gan yr eglwys.

Y trydydd meddylddrych yw, fod yr eglwys yn sefydliad byw er datguddio a chyhoeddi y gwirioneddau uchaf, ac er cynnorthwyo plant Duw i roddi ymadroddiad neu ddatganiad i'w cynhyrfiadau o barch, diolchgarwch, a serch. Gellir galw hyn y meddylddrych crefyddol o'r eglwys. Y mae yn darparu ar gyfer arferion deallawl yr eglwys, trwy ei gwneyd yn rhan o'i dyledswydd i ddarganfod neu ddatguddio a lledu y gwirioneddau uchaf possibl; y mae yn darparu ar gyfer ei harferion moesol, trwy osod i fyny y safon uchaf o rinwedd, a thrwy sicrhau yspryd byw o ymofyniad a theimladau dyfnaf y galon yn yr ymdrech i'w gyrhaedd neu ei gael; y mae yn darparu er ei harferion moesol, trwy feithrin a chyfarwyddo y cynhyrfiadau a'r cyffroadau ydynt yn ein dwyn agosaf at Dduw; y mae yn darparu er arferion cymdeithasol ynddi, trwy ddwyn pob dosparth o ddynion yn nghyd mewn ffordd ac ar yr amser tebycaf i orchfygu a chario y fuddugoliaeth ar wahaniaethau dynwaredol bywyd cyffredin; y mae yn darparu yn olaf ar gyfer ei harferion daionus, tosturiol, ac elusengar, trwy ddysgu pa fodd y dylem fod yn haelionus, a thrwy roddi y cymhelliadau neu y cynhyrfiadau cryfaf dros fod felly. Yn mhob ffordd, gan hyny, y mae yr eglwys y sefydliad mwyaf gwerthfawr os ca ei harfer yn briodol; ond gall fod, ac y mae wedi cael ei harfer, fel offeryn teyrniaeth unbenaethol gan ddynion cyfrwys, uchelgeisiol, ac ystyfnig.

Mewn perthynas i ddysgeidiaeth yr eglwys, dylid bod yn ofalus iawn i gadw yn y meddwl yr arferion goreu ellir eu sicrhau drwy ddirgymhell rhyddid ymofyniad a llafur. Y mae pob ymdrech sydd yn cael ei gwneyd i beru i gredoau un oes fod yn rhwymedig ar yr oesau dylynol wedi terfynu mewn achosi rhagrith a gwrthryfel. Y mae meddwl dyn yn flaenfynedol, ac y mae y gwirionedd perffaith bob amser o'i flaen, neu yn cadw ar y blaen arno; o ganlyniad, gwelwn yr angen am ryddymofyniad. Dylai yr athraw gael ei galonogi i gyflenwi ffeithiau byw, newydd, ac nid i ail-adrodd geiriau meirwon. Yn yr un modd dylai y gwrandawyr arfer eu rheswm, ac nid meddwl eu bod yn rhwym o dderbyn pob peth y maent yn ei glywed. Y mae yn deyrniaeth ar ran y dysgawdwr neu yr athraw i haeru a honi fod ei wrandawyr yn rhwym o gredu yr hyn a ddywed ef heb ryddymofyniad; ac y mae yn beth annoeth a thrist i esgeuluso y ddyledswydd, o du y gwrandawr, i ymostwng i'r fath honiad neu hawl.

Os dywedir wrthym un amser am ddarostwng ein rheswm i unrhyw ffydd neu gredo, byddwn ar ein gwyliadwriaeth; prin y mae yn debyg y gall unrhyw beth fod yn dda, yr hwn ni ellir ei dderbyn heb yn gyntaf i ni gau ein llygaid.

Gyda golwg ar addoliad a chydgyfeillach ysprydol yr eglwys, bydd i ni wneyd yn dda i feddwl fod pobl yn mhob man yn cael eu helpu drwy gydymdeimlad a chymdeithas, ac yn neillduol pan y mae a fyno hyny â theimladau a serchiadau. Y mae yr eglwys wedi dysgu llawer calon drist i fod yn llawen, a llawer tafod hurt i ganu. Yno y mae

teimladau dwfn yr enaid yn cael eu hesponio a'u boddhau; yno y mae y gobaith niwlog yn cael ei glirio a'i ddysgleirio; yno y mae yr amheus yn cael hyfforddiant; yno y mae y galon galed yn cael ei meddalhau a'i thyneru; yno y mae y bywyd blinderog a llwythog yn cael ei gyffwrdd â gras oddiuchod; yno y mae y llwybr garw yn terfynu dros amser yn y "porfeydd gwelltog" ac wrth y "dyfroedd tawel;" ac yno y mae y meddyliau, y teimladau, a'r serchiadau na allesid rhoddi datganiad iddynt yn cael allan eiriau ac adenydd, ac yn esgyn o'r ddaear i'r nefoedd—oddiwrth ddyn at Dduw.

H.

Y SULGWYN.

Un o'r gwyliau Iuddewig ydyw y Sulgwyn. Ymddengys fod gan yr Iuddewon dair gwyl flynyddol, yr ail o'r rhai yw y Sulgwyn. Dyddiad yr wyl hon oedd y degfed dydd a deugain ar ol y Pasc, a chyfrif o'r dydd cyntaf o wyl y bara croew, sef dydd offrymiad y Pasc. Ar yr un dydd, hefyd, y disgynai Gwyl y Pentecost, a dyma y rheswm pwysicaf dros y dybiaeth gyffredin yn mhlith y beirniaid mai dau enw ar yr un wyl ydyw y Sulgwyn a'r Pentecost. Yn y Testament Newydd, mewn dau fan (Actau xx. 16, a 1 Corinthiaid xvi. 8), cyfeirir y gair Pentecost yn Sulgwyn. Dan yr Hen Oruchwyliaeth, gelwid yr wyl hon wrth enwau ereill, megys gwyl y cynauaf a gwyl yr wythnosau. Gelwid hi gwyl y cynauaf, am ei bod yn flaenffrwyth y cynauaf gwenith, fel yr oedd y Pasc yn flaenffrwyth cynauaf yr haidd. Gelwid hi gwyl yr wythnosau, am fod saith wythnos i'w cyfrif o offrymiad y Pasc hyd offrymiad y ddwy dorth gyhwfan o beilliaid i'r Arglwydd. Yr oedd yr wyl hon yn cael ei galw y Pentecost, am mai y degfed dydd a deugain ar ol y Pasc yr oedd i ddechreu, a galwyd hi y Sulgwyn, medd rhai, oblegyd y deuai y rhai a fedyddiwyd yn y brif eglwys rhwng y Pasc a'r Sulgwyn i'r addoliad mewn dillad gwynion. Gan hyny, nid yw y Sulgwyn ond un o'r enwau a roddid ar yr ail o brif wyliau yr Iuddewon, yr hon a gynnelid yn Jerusalem. Yn ngwyneb hyn, rhoddwn ddesgrifiad byr o neillduolion a dybenion yr wyl hon.

I. Neillduolion yr Wyl hon.

Yn ol y desgrifiad a roddir o gynnaliad yr wyl hon yn yr ysgrifeniadau Iuddewig, yr oedd y pererinion yn myned i fyny i Jerusalem ar y dydd blaenorol i'r wyl, pryd y parotoent bob peth angenrheidiol at ei chadw yn rheolaidd. Cyhoeddid, drwy ganiad udgyrn, fod y gymmanfa sanctaidd i ddechreu y dydd dylynol. Y gwaith a gyflawnid y

dydd hwn oedd glanhau allor y poeth-offrwm, agor pyrth y deml a phyrth y cyntedd nesaf i fewn, y rhai a drigent yn y ddinas. Ar ddydd yr wyl, yr oedd yr holl wrywiaid yn Israel i ddyfod i fyny i Jerusalem, a chyda hwynt bobo "ddwy dorth gyhwfan, dwy ddegfed ran o beilliaid fyddant; yn lefeinllyd y pobir hwynt," i'w hoffrymu fel blaenffrwyth o flaen yr Arglwydd. Dygid hefyd saith oen blwyddiaid perffaith gwbl, ac un bustach ieuanc, a dau hwrdd, yn nghyd â'u bwyd-offrwm a'u diod-offrwm; un bwch gafr i'w aberthu yn bech-aberth, a dau oen blwyddiaid yn aberth hedd. Yn ychwanegol at yr uchod, y rhai a offrymid dros yr holl genedl, dysgwylid i bob un a ddeuai i'r cyssegr ar yr wyl hon, megys ar wyliau ereill, ddwyn i'w ganlyn aberth gwirfoddol, yn ol fel y byddai ei amgylchiadau yn caniatau. Ymddengys fod rhan o'r aberth gwirfoddol i'w roddi i'r offeiriaid a'r Lefiaid, a bwyteid y gweddill gan y gwahanol deuluoedd, y rhai a wahoddent y tlodion a'r dyeithriaid i gydgyfranogi â hwynt. Ar adeg yr aberthu, offrymid yn gyntaf yr aberth dyddiol boreuol, ac yna, aberthau ereill yr wyl; tra, ar yr un pryd, y cenid yr Hallel Fawr (Salmau cxiii. a cxviii.) gan y Lefiaid, trwy yr hyn y byddai y gynnulleidfa yn diolch i Dduw am y cynauaf yn y modd mwyaf diffuant.

2. Dybenion yr Wyl.

Fel yr awgrymwyd uchod, un o ddybenion yr wyl ydoedd diolch i Dduw am y cynauaf. Yn ddiamheu, dyma brif ddyben yr wyl. Y mae yn goffadwriaeth o bethau ereill, er hyny, megys y waredigaeth o'r Aifft, rhoddiad y gyfraith ar Sinai, a thywalltiad yr Yspryd Glân ar yr apostolion. Ar y Pasc y daeth Israel o'r Aifft, ac yn gymhwys yn mhen deg a deugain o ddyddiau y rhoddwyd y gyfraith iddynt ar Sinai. Etto, yn mhen deg a deugain o ddyddiau wedi ei gladdedigaeth yr esgynodd Crist i'r Nef, ac y tywalltwyd yr Yspryd Glân ar yr apostolion i'w haddasu i bregethu yr Efengyl, ac i gasglu cynauaf o eneidiau i'r Arglwydd, ac i ysgrifenu y gyfraith ar galonau pechaduriaid. Gwelir oddiwrth hyn fod cadw y Sulgwyn yn goffadwriaeth o ddisgyniad yr Yspryd Glân ar yr apostolion yn ychwanegu at amcanion gwreiddiol cadwraeth yr wyl hon; a gellir dweyd nad pa mor deilwng a haeddiannol ydoedd ei hamcanion gwreiddiol, nad yw yr ychwanegiad diweddaf yn llychwino y dim lleiaf arnynt. Dywed haneswyr fod yr Iuddewon yn parhau yn ffyddlon i draddodiadau eu tadau yn eu cadwraeth o'r gwyliau, ond nad yw amgylchiadau yn caniatau i'w cynnal mor rhodresgar a chynt.

Fel y gwyr pawb, cedwir yr wyl hon gan y Cymry, ond nid i un o'r dybenion uchod, eithr yn syml fel gwyl. Treulir hi gan lenorion i gynnal eisteddfodau, gan grefyddwyr i bregethu'r Efengyl; ond gan lawer, os nad gan y mwyaf, fel y mae gwaethaf y modd, i ddybenion darostyngol.

J. M.

LLINELLAU O GYDYMDEIMLAD

I Mr. Jones, gweinidog yr Undodiaid yn Llanbedr, ar farwolaeth ei ferch fach yn ddeng mlwydd oed.

O! wedi marw mae eich geneth fwyn!
Mi glywais inau'ch bod mewn galar trwm—
Dwys alar nas gall calon dyner tad
Ymsymmud dano: pwysa megys plwm!

Yr oedd yn eneth deg dywedwyd im'
(Er na ches I un gipdrem arni 'rioed):
Hi swynai ei chyfeillion aml eu rhif,
A denai bawb i'w charu yn ddioed.

Ond tra dadblygai ei rhinweddau hi,
A serch rhieni'n c'lymu am dani'n dyn,
Daeth cenad o ororau nef y nef
I sibrwd yn eich clustiau, "Duw a'i myn!"

O dyna ergyd oedd yr ergyd hwn!
Y tad a welwai, wylai'r dyner fam;
"Ein geneth hoff, a wnest ein gadael ni?
Rhy ieuanc o'et i farw'r fwyn ddinam!"

Ond O! fel ambell i flodeuyn tlws
Yn agor gyda'r wawr ar foreu clir,
Ond cyn yr hwyr daeth awel oer y dydd
Yn ddeifiol chwa i wywo'r bywyd îr.

Eich geneth fach 'run modd agorai'n hardd,
A phurdeb i'enctyd yn addurno'i gwedd,
Ond angeu ddaeth a'i fysedd oerion, llym,
I'w gosod yn unigrwydd dwfn y bedd.

Gwâg yw y ty ar ol ei cholli hi,
Ond cofiwch, frawd, nid yw eich merch ar goll:
Mae hi ar gael er nad yw genych chwi:
Rhagluniaeth Duw sydd ddwfn i'n deall oll.

Na wylwch yn ormodol, riaint mad,
Ar ol y perl am dymhor i chwi roed;
Diangodd o ofidiau mil a mwy—
Ca'dd Diniweidrwydd nef yn ddeng mlwydd oed!

St. David's College, Lampeter. D. Ivor Davies.

UNDEB YR ENWADAU YN NGHYMRU.

Y mae'r mudiad sydd ar droed yn awr i ddwyn oddiamgylch fwy o undeb cydrhwng y gwahanol enwadau iawnffyddiog yn Nghymru yn debyg o droi allan i fod yn un o fudiadau mwyaf pwysig y ganrif—yn un o'r rhai mwyaf bendithiol i'n cenedl yn mhob ystyr. Yr oedd arwyddion amlwg er's amser bellach fod y prif ddynion perthynol i'r pedwar enwad mwyaf lluosog yn Nghymru, sef y Methodistiaid, yr Annybynwyr, y Bedyddwyr a'r Wesleyaid, yn teimlo fod angen am fwy o undeb a chydweithrediad yn y pethau hyny yn nghylch y rhai yr oeddynt oll yn cyduno, ac yn teimlo yr anfantais oedd yn deilliaw oddiwrth y diffyg undeb hwn. A bellach y mae'r dymuniad wedi cymmeryd ffurf. Y mae amryw o weinidogion a gwyr lleyg perthynol i'r pedwar enwad a nodwyd wedi cyfarfod â'u gilydd, ac wedi trin y mater yn drwyadl; ac yr oedd yr ysbryd da a Christionogol oedd yn nodweddu y gweithrediadau drwyddynt yn rhoi lle cryf i obeithio fod llwyddiant perffaith i ganlyn y mudiad. Pan yr ystyriom nad oes ond can lleied o wahaniaeth rhwng yr enwadau hyn a'u gilydd, y mae yn hynod na fuasai rhywbeth o'r fath wedi cael ei wneyd er's amser maith; ond gwell hwyr na hwyrach. Ac yn awr, pan y mae y mudiad wedi ei osod ar ei draed, gobeithio na theflir un rhwystr ar ei ffordd, fel ag i'w ddiffodd.

Y mae y mudiad yn haeddu pob cefnogaeth, a hyny ar gyfrif llawer o bethau. Bydd yn sicr o ddylanwadu i ddwyn oddiamgylch undeb mwy trwyadl a theimlad mwy brawdol rhwng y gwahanol ddosparthiadau o'r hen genedl Gymreig. Y mae angen mawr am hyn, fel yr ydys wedi cael profion lawer gwaith. Y mae'r ysbryd cenedlaethol yn ail-ddeffro yn mhob cyfeiriad; ac fel canlyniad i'r ail-ddeffroad hwn, fe ddaw yn fuan luaws o bynciau i'r golwg ag eisieu eu trafod, a bydd gwelliantau newydd yn angenrheidiol, ac fe fydd eisieu llais yr holl genedl, neu o leiaf y mwyafrif o honi, i wthio y pynciau hyn i sylw, ac i ofyn am y diwygiadau sydd yn eisieu. Yn bresenol, y mae hyn yn anhawdd, braidd yn anmhossibl, gan fod y genedl wedi ymranu yn fân bleidiau, fel nad oes na nerth cyflawn na chyfanrwydd yn y llais cenedlaethol. Ac yn y cyfeiriad hwn, fe all y mudiad fod yn un bendithiol i'r holl genedl.

Ond bydd y mudiad yn sicr o esgor ar ddylanwadau daionus mewn cyfeiriadau ereill. Gellir nodi un. Yn bresenol, fe geir mewn llawer o bentrefi bychain, neu gymmydogaethau anmhoblogaidd, dri neu bedwar, ac weithiau ychwaneg o gapelau perthynol i'r gwahanol enwadau, pryd y buasai un yn llawn digon i ateb gofynion y cyfryw gymmydogaeth. Gellir nodi allan lawer o enghreifftiau o hyn; ond nid oes angen. Yn awr, os gall yr undeb newydd hwn sydd wedi ei ffurfio fod yn foddion i rwystro y lluosogiad diangenrhaid hwn ar gapelau mewn cymmydogaethau anmhoblogaidd, fe wna wasanaeth dirfawr. Nid yw y gwahaniaethau sydd yn bodoli rhwng y gwahanol enwadau ond bychain a dibwys pan yr eir i edrych arnynt—y maent

yn mhell o fod yn ddigon pwysig i'w cadw ar wahan. Ac felly, nid oes genym ond gobeithio mai hyn fydd un o ganlyniadau yr undeb hwn.

Y mae yn wir ein bod ni, fel enwad, wedi ein cauad allan y tro hwn etto. Y mae yn anhawdd gwybod beth all fod y rheswm am hyn. Y mae'r enwad Undodaidd yn sicr wedi gwneyd cymmaint ag un enwad, yn ol ei faint, dros ryddid crefyddol a gwladol, ac y maent yn sefyll i fyny dros yr un egwyddorion o foesoldeb a'r enwadau ereill, fel y mae yn hollol dywyll ar ba dir yr ydym yn cael ein hanwybyddu, os nad ar y tir nad ydym yn iach yn y ffydd, fel yn yr amser gynt. Ond ni fyddwn yn waeth o herwydd hyn; yn hytrach, dylai ein symbylu o'r newydd i weithio yn fwy ffyddlon a difrifol dros ledaeniad ein hegwyddorion. Etto, nid wyf heb gredu na bydd y mudiad dan sylw yn sicr o ddylanwadu rhywfaint, er mai ychydig o bossibl, er hyrwyddo lledaeniad egwyddorion crefydd rydd. Nid wyf wrth hyn yn golygu y bydd syniadau Undodaidd yn cael eu taenu trwy gyfrwng yr undeb hwn; ond yn hytrach, wrth ddweyd hyn, nid wyf yn golygu dim yn rhagor nag y bydd gwaith dynion o wahanol syniadau yn dod at eu gilydd i drafod pynciau neilltuol yn rhydd a didderbynwyneb yn rhwym o ddwyn yspryd mwy rhyddfrydig i'r gwahanol enwadau nag sydd yn eu plith yn awr. Nid troi dynion at ein syniadau ni sydd yn bwysig, ond dwyn dynion i'r sefyllfa hono yn yr hon y maent yn chwilio am y gwirionedd yn ddiragfarn, ac yn gadael i ereill wneyd yr un peth. A chan fod genym le i obeithio y bydd y mudiad newydd hwn yn sicr o ddylanwadu rhywfaint yn y cyfeiriad hwn, gallwn, fel enwad, ddymuno iddo rwydd hynt. D. E.

ADDOLI DUW.

Er mwyn addoli Duw, rhaid i ni yn gyntaf addoli dyn. Darfu i ysprydoliaeth ddofn yr Apostol Ioan ei ddwyn i'r casgliad hwn pan y traethodd yr ymadrodd bythgofiadwy hwnw, "Yr hwn nad yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw, yr Hwn nis gwelodd." Yr ydym yn esgyn i uchelderau duwioldeb nefol oddiar wastadedd isel cariad dynol. Yr ydym yn dyfod yn gynnefin â daioni yn unig drwy ei weled yn cael ei amlygu yn ein cyd-ddynion. Mae diniweidrwydd y plentyn bach yn ein galluogi i weled rhywfaint o burdeb uwch fry. Mae ymroddiad hunan-aberthol dyn da i ddeddf tegwch a chyfiawnder yn rhoddi i ni awgrym o'r cyfiawnder Dwyfol. Mae haelfrydedd mewn dyn ag sy'n myned allan o hunan mewn cydymdeimlad â'i gymmydog, yn ddangoseg o gariad anhyspyddadwy y Tad yr Hwn sydd yn y nefoedd.

Mae yr *idea* o ddaioni Dwyfol yn gwawrio ar yr enaid wrth weled ffyddlondeb, gonestrwydd, a gwirionedd dynol. Trwy y grisiau hyn, sy'n cael eu gwneyd i fyny o ddaioni daearol, yn ddidwyll, er lawer pryd yn anmherffaith, y mae ein meddwl a'n calon yn esgyn i gael

golwg ar y Daioni Anfeidrol; ac y mae pobpeth sydd yn peru i ni amheu neu wadu daioni dynol yn ein rhwystro i barchu enw Duw. Mae y wawdiaeth sy'n ymffrostio am ei bod yn cael gafael mewn cymhelliad hunanol i bob gweithred ddaionus—y ddoethineb fydol sydd yn gweithio gyda dadleuon isel ac arianol yn amcanion iddi—yn cau y galon yn erbyn gweled yr hyn sy dda mewn dyn. Nid yw y ddoethineb fydol hon yn gweled yr ysprydoliaeth sydd yn dyfod i lawr o'r nefoedd—y tynerwch o gydymdeimlad dynol, amynedd y tlawd, y gwroldeb o ymlynu yn gadarn wrth egwyddor ac argyhoeddiad pan y mae elw a mantais yn ein cymhell ni i weithredu yn wahanol, ffydd y merthyr, a gweledigaeth yr apostol. Mae holl deithi goreu dyn yn cilio o olwg y wawdiaeth a'r syniad isel, dirmygus, hwn o'r natur ddynol; ac mae'r gallu yn cilio gyda nhw o adnabod daioni a chariad Duw.

Mae yr hwn sydd yn caledu ei galon yn erbyn dyn yn caledu ei galon hefyd yn erbyn Duw; ac o ganlyniad, mae yn ddyledswydd arnom i edrych am y da yn hytrach nag am y drwg yn ein cyd-ddynion Yr ydym yn debyg o gael yr hyn ag ydym yn arfer edrych am dano. Os ydym yn edrych am feiau, ffolineb au, a phechodau, digon tebyg y cawn hwynt yn y goraf o'n cyfeillion, ac yn y rhai a ystyrir yn rhagorolion y ddaear. A 'dyw hi ddim yn angenrheidiol i gau ein llygaid ar y ffaith o gyfeiliornad a phechod dynol. Ond bydded fod genym ffydd mai nid drygioni yw y peth hanfodol mewn dyn, ei fod yn wanach nag yw o ddrygionus, yn greadur cymhelliad a nwyd, yn cael ei lywodraethu gan amgylchiadau, yn aml yn cael ei drechu gan brofedigaeth, ond ddim yn bwyllog yn dewis y drwg o flaen y da.

A chan fod daioni dynol yn ddatguddiad rhanol o ddaioni Duw, yr ydym yn cael y datguddiad uchaf yn yr eneidiau uchaf. Mae yr Iesu fel hyn yn dyfod i ni y datguddiad goreu o Dduw. Ynddo ef yr ydym yn cael perffaith wirionedd a pherffaith gariad wedi eu cyfuno. Yn mhell uwchlaw i ni yn ei ymroddiad hollol i ewyllys Duw, y mae gyda ni ac yn eiddo i ni yn ei dynerwch a'i dosturi fel brawd ac fel y cyfaill mwyaf anwyl i ni. Yn byw bob amser yn awyrgylch Cariad Dwyfol, darfu iddo ef dreulio ei ddyddiau i geisio ac i gadw y rhai a gollasid. Nid drwy urddas a safle allanol, nid drwy olud a mawredd a mympwy y byd hwn, ond drwy y cydgordiad hwn mewn enaid a chymmeriad, y daeth efe y datguddiad goreu o wirionedd a chariad Duw.

Yr ydym yn dangos parch i Dduw, nid drwy dermau o glod na thrwy eiriau o fawl, ond drwy gymmeryd syniadau cywir am ei gymmeriad. 'Allwn ni ddim parchu ei enw os meddyliwn ni am dano fel Bod gormesol neu fel un sydd yn taranu bygythion chwerwon uwchben ei blant ar y ddaear. 'Allwn ni ddim caru Duw os meddyliwn ni am dano fel Bod digofus a llawn llid tuag at bechaduriaid. 'Allwn ni ddim parchu ei enw os tybiwn ni fod rhai o'i briodoleddau yn gwrthryfela yn erbyn y lleill, a meddwl y dylai ei gyfiawnder gael ei gymmodi â'i drugaredd drwy ryw gynghrair goruwchnaturiol. Yn Nuw mae cyfiawnder a thrugaredd yn un. Pan yr ydym ni am ddangos parch i enw Duw, rhaid i ni wneyd hyny, nid mewn geiriau o fawl, ond yn yspryd gwir-

ionedd, gonestrwydd, haelfrydedd, a ffyddlondeb, oblegyd os yw y rhai hyn ynoch chwi, ni fyddwch byth yn anffrwythlon mewn gweddi nac mewn bywyd.

NEFOEDD.—M.B.

Byth yno ni bydd *nos*
O fewn i'r nefol fyd ;
A gwaith ni ddyga flinder byth—
Gwaith cariad fydd i gyd.

Dim *galar* yn y nef,
Ond oll yn berffaith ddydd ;
Pob deigryn, pob ochenaid mwy,
Yn y gorphenol fydd.

Dim *pechod* yn y nef—
Y dorf fendigaid lân,
Mewn gwisg ddifrycheu, sanctaidd, pur—
Pur, sanctaidd, fydd eu cân.

Dim *marw* yn y nef—
'Nol teithio'r afon trwy,
Ac ennill anfarwoldeb glan,
Nis gallant farw mwy.

O Dad, arweinia ni,
Hwnt *nos* â'th ddeheu law,
Hwnt *galar*, *pechod*, *angeu* du,
Nes ennill nefoedd draw !

O'r Saesneg, Rhagfyr 24, 1889. T. C. U.

Y GENEDL GYMREIG A'R BLAID RYDDFRYDIG.

Y mae arwyddion amlwg i'w canfod yn mhob cyfeiriad fod llawer o Ryddfrydwyr Cymru yn dechreu blino ar yr oerfelgarwch a ddangosir gan arweinwyr y blaid Ryddfrydig yn y Senedd pa bryd bynag y mae rhyw bwnc Cymreig yn cael ei drin. Nid ydys i ddeall fod yr amser ar ddod pan y bydd Rhyddfrydwyr Cymru yn peidio bod yn Rhyddfrydwyr mwyach, ac yn troi yn Doriaid. Pell oddiwrth hyny. Nid yw'r hen genedl yn myned i droi oddiwrth yr egwyddorion dros y rhai y mae wedi ymladd cyhyd mor rhwydd. Ond wrth ddweyd fod Rhyddfrydwyr

Cymru yn dechreu teimlo yn anfoddlawn i'r dull yr ymddygir tuag atynt gan Ryddfrydwyr y Senedd, yr ydym i ddeall fod y teimlad yn ffynu (neu yn helaeth hefyd) fod yr amser ar ddod pan y bydd yn rhaid i'r Aelodau Cymreig ymffurfio yn blaid annybynol cyn y gallant gael y gwelliantau hyny yn y cyfreithiau am y rhai yr ydym wedi dysgwyl cyhyd. Pan yr awn i edrych ar y mater yn ddiragfarn y mae yn rhaid cyfaddef nad oes agos cymmaint o wahaniaeth rhwng y ddwy blaid a allesid ddysgwyl wrth yr enwau a roddir arnynt. Y mae y gwahaniaeth mwyaf i'w gael pan y maent yn sefyll etholiad, yn yr addewidion a wneir ganddynt er mwyn denu y bobl i'w dewis fel cynnrychiolwyr. Nid wyf yn beio cymmaint ar y boneddwyr hyn ag ar yr etholwyr eu hunain. Y mae'r gallu yn eu llaw, ac os nad yw eu cynnrychiolwyr yn eu boddloni, y mae ganddynt hawl i ddangos hyny iddynt. Ond y mae lle i ofni na cheir fawr o welliant tra y bydd y dô bresenol yn ein cynnrychioli; ac fe ellir bod yn sicr y byddant yn ein cynnrychioli hyd nes y bydd Cymru leuanc wedi ymysgwyd yn llwyr o'i difaterwch, a mynu cynnrychiolaeth well. Ac y mae arwyddion, fel y sylwyd, fod hyn ar gymmeryd lle; ac y mae'r arwyddion yn dod yn fwy amlwg bob dydd. Y mae'r amser ar ddod pan y bydd Cymru yn danfon dynion i'w chynnrychioli fyddant yn gosod ffyddlondeb i'w cenedl o flaen ffyddlondeb i'r Blaid Ryddfrydig; a'r rhai na fyddant yn petruso dim i fod yn achos o ofid i'r sawl fydd yn dal awenau y Llywodraeth os na wrandewir ar eu ceisiadau. Nis gall fod un esgusawd gwerth son am dano dros yr oerfelgarwch a ddangosir yn bresenol mewn cyssylltiad a Mesur y Degwm. Pe buasai mesur o'r fath wedi cael ei ddwyn yn mlaen ar gyfer yr Ysgotland neu'r Iwerddon, byddai Gladstone, Harcourt, Morley, a'u cwmni yn ymaflyd yn y gwaith o'i wrthsefyll a'u holl egni. Ond gan mai ar gyfer y Genedl Gymreig y mae wedi ei fwriadu (nis gall fod amheuaeth am hyn), maent yn ddystaw, neu y nesaf peth at hyny. Gallent, pe yn dewis, wneyd y gwaith o basio'r mesur hwn yn anmhossibl. Y mae yr un fath gyda phwnc y Dadgyssylltiad. Y mae Gladstone wedi bod yn dweyd amryw weithiau bellach y bydd ef yn barod i bleidio Dadgyssylltiad pan y ca ar ddeall fod y mwyafrif o'r Genedl Gymreig yn unfrydol drosto. Wel, pa faint o brofion sydd yn ddigon i'w argyhoeddi, tybed? A ydyw yn bossibl iddo gael profion mwy cryf nag a roddir iddo yn awr, a phrofion sydd wedi eu rhoddi iddo trwy'r blynyddau? A ydyw'r ffaith fod y rhan fwyaf, ie, fod pedwar o bob pump o'i chynnrychiolwyr yn bleidiol iddo, fod y rhan fwyaf o lawer o bobl Cymru wedi ymwrthod a'r Eglwys, ac fod lluaws mawr yn myned mor bell yn eu gwrthwynebiad fel y maent yn gwrthod talu ati ond trwy orfodaeth, ddim yn ddigon? Y gwirioneedd yw, buasai'r etholiad diweddaf yn Arfon wedi ei golli oni bai am y pwnc o Ddadgyssylltiad. Pe *Home Rule* yn unig fyddai r *test*, nid oes amheuaeth nad Tori fuasai wedi ennill. Nid wyf wrth hyn yn maentumio fod Cymru yn erbyn rhoi Ymreolaeth i'r Iwerddon, ond rywfodd ychydig o frwdfrydedd a greir gan y pwnc hwn yn Nghymru mewn cymhariaeth i'r hyn a greir gan y pwnc o Ddadgyssylltiad. Y mae yn llawn bryd i'r hen Genedl Gymreig ddeffroi unwaith etto.

Nid ydys i gael y gwelliantau sydd arnom eu heisieu trwy help Cymdeithas Rhyddhad Crefydd a'r cyffelyb megys areithiau hyawdl a llawn o addewidion gweigion; ond y mae yn amlwg fod rhaid iddi gymmeryd y mater i'w llaw ei hun yn fwy nag y mae wedi wneyd hyd yn hyn, neu y mae yn sicr na cheir dim.—D. E., C.

CYWREINRWYDD HYNAFIAETHOL.*

Yr wyf yn meddwl mai yn Yr Ymofynydd y cyhoeddwyd gyntaf gyfieithad i'r Gymraeg o *Addysg yr Apostolion*, sef yn Gorphenaf, 1884. Mae wedi tynu llawer o sylw a chreu llawer o ddyddordeb yn Lloegr a Chymru wedi hyny. Wele gywreinrwydd arall nad wyf fi wedi ei weled yn y Gymraeg, a chan fy mod yn credu y darllenir ef gyda llawer o frwdfrydedd, yr wyf yn ei anfon i ofal y Golygydd.—T.C.U.

CYFYSGRIF O LYTHYR

a ysgrifenwyd gan ein Harglwydd a'n Iachawdwr Bendigedig Iesu Grist,

A gafwyd ddeunaw milldir o Iconium, dair blynedd a thriugain ar ol croeshoeliad ein Iachawdwr Bendigedig,
A drosglwyddwyd o'r ddinas sanctaidd gan Iuddew dychweledig,
A gyfieithwyd yn ffyddlawn allan o'r cyfysgrif gwreiddiol Hebreaidd yn awr yn meddiant teulu yr Arglwyddes Cuba yn Mesopotamia,
Y llythyr hwn a ysgrifenwyd gan Iesu Grist ac a ddarganfyddwyd o dan gareg fawr, gylchog, wrth droed y groes. Ar y gareg yr oedd yn gerfiedig: "Gwyn ei fyd a'm try i drosodd." Pawb a'i gwelsant, a weddiasant yn ddifrifol ar Dduw, ac a ddymunasant, ar iddo wneuthur yr ysgrifen yn hyspys iddynt, ac na fyddai iddynt gael troi y gareg drosodd yn ofer. Yn y cyfamser, daeth plentyn bychan allan, ac a'i trodd drosodd heb gynnorthwy, er syndod i bawb a safent gerllaw. Fe'i cludwyd i ddinas Iconium, ac yno fe'i cyhoeddwyd gan rywun a berthynai i Lady Cuba.
Ar y llythyr yr oedd yn ysgrifenedig *Gorchymynion Iesu Grist*, wedi ei arwyddnodi gan yr angel Gabriel, driugain mlynedd a phedair ar ddeg ar ol genedigaeth ein Iachawdwr.

LLYTHYR IESU GRIST.

Pwy bynag a weithio ar y dydd Sabbath a fydd melldigedig.
Yr wyf yn gorchymyn i chwi fyned i'r cwrdd, ac i gadw dydd yr Arglwydd yn sanctaidd, heb wneuthur un math o waith.

* Nid wyf yn gwybod pa mor hen dichon y llythyrau yma fod, ond y maent yn llawer diweddarach na'r amser a honir iddynt. Mae arnynt sawyr Pabyddol. —T.C.U.

Na threuliwch eich amser yn ofer, yn addurno eich hunain a diangen bethau, gwisgoedd costus, a dillad gwag ogoneddus; oblegyd yr wyf wedi ordeinio dydd o orphwys.

Mi a fynaf fod y dydd hwnw yn cael ei gadw yn sanctaidd, fel y caffoch eich pechodau wedi eu maddeu.

Na thorwch fy ngorchymynion, ond perchwch a chedwch hwynt; ysgrifenwch hwynt yn eich calon, rhoddwch sylw dianwadal iddynt gael eu hysgrifenu gan fy llaw fy hun, a'u llefaru gan fy ngwefusau fy hun.

Ewch i'r eglwys nid yn unig eich hun, ond anfonwch eich gweision a'ch morwynion; a pherchwch fy ngeiriau, a dysgwch fy ngorchymynion.

Gorphenwch eich gwaith bob Sadwrn yn y prydnawn, erbyn chwech o'r gloch, ar yr hon awr y mae parotoad y Sabbath yn dechreu.

Yr wyf yn eich cynghori i ymprydio bump dydd Gwener yn mhob blwyddyn, gan ddechreu ar Wener y Groglith, a pharhau ar y pedwar Gwener olynol, mewn coffadwriaeth am y pump archoll a ddyoddefais dros ddynolryw.

Llafuriwch yn ddyfal ac yn heddychlawn gyda'ch gwahanol alwadau, y rhai y mae wedi rhyngu bodd i Dduw i'ch galw iddynt.

Cerwch bawb eich gilydd gyda chariad brawdol, a pherwch fod y rhai a fedyddiwyd yn dyfod i'r cwrdd ac yn derbyn y Sacramentau, y Bedydd, a Swpper yr Arglwydd, a'u gwneuthur o honynt yn aelodau eglwysig trwy hyny.

Mi a roddaf i chwi fywyd hir, yn nghyd â llawer o fendithion; eich tir a fydd ffrwythlawn, a'ch anifeiliaid a luosogant; a mi a roddaf i ti, ddyn, fendithion a chysuron yn y profedigaethau mwyaf; a'r hwn a wnel yn erbyn a fydd anfuddiol. Mi a ddanfonaf galedwch calon, hyd onis gwelwyf hwynt, ac yn enwedig ar yr anedifeiriol a'r anghredinwyr.

Yr hwn a roddo i'r tlawd, ni bydd hwnw anfuddiol. Cofia gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath; canys y dydd Sabbath y gorphwysais i fy hun.

A'r hwn y mae ganddo gyfysgrif (copi) o fy llythyr hwn, ysgrifenedig a'm llaw fy hun, llafaredig a'm geneu fy hun; ac a'i ceidw heb ei gyhoeddi i ereill, ni lwydda; ond yr hwn a'i cyhoedda i eraill a fendithir genyf fi; ac er i'w bechodau fod mewn rhifedi fel rhif ser y nef; os cred efe yn hwn, efe a faddeuir; ac oni chred yn yr ysgrifen hon a'r gorchymyn hwn, mi a ddanfonaf arno fy heintiau fy hun; ac a'i difaf ef a'i blant, a'i dda. A phwy bynag fyddo ganddo gyfysgrif o'r llythyr hwn, ysgrifenedig gan fy llaw I, a'i gadw yn ei dy; ni ddichon dim ei niweidio, na mellt, na phla, na tharan.

Ac o bydd gwraig yn feichiog, ac mewn gwewyr, o bydd iddi gredu yn gadarn ynof fi, hi a ryddheir yn ddyogel.

Ni chewch yr un newydd am danaf fi, ond trwy yr ysgrythyrau sanctaidd, hyd ddydd y farn.

Pob daioni, a dedwyddwch, a llwyddiant, a fydd yn y tŷ, lle y ceir cyfysgrif o'r llythyr hwn.

YMWELIAD A'R AMERIG.

Y FORDAITH.

(Parhad o'r rhifyn diweddaf.)

O'r diwedd, dyma awr y cychwyniad wedi dod. "'*All right*,' meddai rhywun, a chanwyd y gloch," yn rhybudd i bawb ymadael ag oeddent wedi dod gyda eu cyfeillion er mwyn gweled yr olaf o honynt, a myned dros y llong, a gweled y *state-rooms* a r *saloon*. Canu'n iach i Fisher a'r "dysgybl anwyl." Yna llu yn brysio dros y *gangway*—math o bontbren i groesi o'r llong i'r *tender*, rhag ofn y bydd iddynt gael eu cludo gyda ni can belled a'r Iwerddon! Dyna *splasho* yn y dwfr, ac yr ydym yn teimlo rhyw gryndod dan ein traed, fel pe baem ar lofft y felin yn y Felinfach, yn cael ei beru gan yr agerbeiriant yn mherfedd y llong. Caufuwn enciliad graddol y *tender* oddiwrth y llong. Dyma ffarwelio etto, ac ysgwyd neisiadau poced a chwifian hetiau. Moment ddifrifol ydy' hon. Rhai yn chwerthin, ereill yn wylo; rhai yn drist, ereill yn llawn digrifwch. Golygfa addysgiadol ddigon i'r meddwl myfyrgar ydyw torf o'r fath ar adeg ffarweliad. Car a chyfaill, mun a'i chariad, brawd a chwaer, gwr a gwraig, rhieni a phlant, cymdeithion a pherthynasau, yn siglo dwylaw, ac yn dweyd ffarwel, efallai, y tro olaf am byth! Fe ddaw llawer ystyriaeth ddwys wrth weled cymmysgiad y teimladau ac achosion. Rhai, fel fy hun, yn myned i ymbleseru, gweled y byd a'i ryfeddodau, i gael dysgu gwersi buddiol yn ysgol fawr ac annghymharol profiad, trwy ddyfod i gyffyrddiad â dynion o wahanol genedloedd, a than wahanol gyfundrefnau o lywodraeth; ereill yn cael eu hysgogi gan yspryd antur, yn cael eu pigo yn barhaus gan ryw chwant annigonol i dreio eu ffortiwn mewn gwlad estronol; rhai, fe ddichon, fel y mab afradlon gynt, yn teimlo caethiwed yr hen gartref yn annyoddefol, fod llygad gwyliadwrus y tad yn rhy fanwl ar eu hol, ac nad oeddent ddim yn cael eithaf chwareu teg tra y byddent yn nghwlwm wrth linynau ffedog y fam! Ereill yn ceisio diane rhag crafanc wasgedig tlodi ac angen ydynt yn pwyso mor drwm ar eu hysgwyddau, ac yn bygwth eu llethu yn yr ymdrech am fodolaeth Fel y dywed yr hen fardd o Gastell Hywel:—

> "Gauaf tlodi dros eu bywyd lethai eu hyspryd gwych i lawr,
> Ac a rewai fywiol ffrydiau rwydd gynneddfau'u henaid mawr."

Ereill yn ffoi rhag iau gormes a thrais hen lywodraethau gorthrymus Ewropaidd. Gwreichionen rhyddid yn dechreu mygu yn eu mynwes, ond yn lle cael annogaeth i gynneu n fflam, yn cael ei diffodd gan ddylif gwaed uchel achau. Blaguryn bach Dwyfol ydyw rhyddid, yn gofyn magwraeth ofalus iawn rhag iddo dyfu yn bren Upasaidd annhrefn a therfysg. *Corruptis optimi pessima est*, meddai yr hen ddiareb, ac y mae rhyddid cyn hyn wedi arwain i *benrhyddid*, o ddiffyg iawn

driniaeth. Rhaid ei warchod, gan hyny, á gwyliadwriaeth ddibaid. Er hyny, hedyn Dwyfol ydyw, ac ar ei dyfiant, i raddau helaeth iawn, y mae rhagfynediad y byd a gwerth bywyd yn ymddybynu. Ond fel y mae gwaethaf y modd, hyd yn hyn, dan lawer llywodraeth, can gynted ag yr ymddengys yr eginyn uwch y dywarchen, y mae'n cael ei ddeifio gan awel rewllyd *caste* a chwstwm, yn cael ei ddamsang gan yspryd hen draddodiadau etifeddol y dosparth breiniol, ac yn cael ei ladd gan ddeddfau gorthrymus cyfundrefnau unbenawl. Dan y fath amgylchiadau, rhaid ceisio hinsawdd mwy cydnaws, awelon mwy balmaidd, awyr mwy iach a rhydd, cyn y gellir meithrin blagur moi dyner, nes y tyfo'n bren mawr, fel ag i gysgodi holl genedloedd y ddaear dan ei gangau. Dyma yw dyben llawer o'm cymdeithion ar y fordaith bresenol, ac o holl gyfundrefnau'r byd, am a wn I, gwerinlywodraeth yr Amerig, a chymmeryd y cyfan i ystyriaeth, ydyw y fwyaf manteisiol i'r perwyl hwn. Ac y mae rhai o honynt wedi aberthu, er mwyn hyn, fwy nag a feddyliwn. fe ddichon—gwlad ag sydd yn anwyl iddynt fel Cymry i bob Cymro twymgalon, cymdeithion cynhes, rhieni tyner, ac aelwydydd cyssegredig.

Nis gwelir eisieu'r ffynnon nes sycho'r dw'r yn lân;
Nes daw gerwinder Gauaf nis gwyddom werth y tân;
Nis teimlwn loesion newyn tra digon hulia'n bwrdd;
Nis gwerthfawrogwn iechyd nes clefyd ddaw i'n cwrdd:
Nis gwyddom nerth attyniad yr hen gartrefol nyth
Nes myn'd i wlad estronol heb obaith dychwel byth;
Nis gwyddom ddyfnder cariad sydd rhwng calonau clau
Nes bo i dynghed greulawn dros fyth ysgaru'r ddau.

Rhyw ystyriaethau cyffelyb a ruthrant i'n meddwl ar achlysur o'r fath.

Ond mae'n rhaid brysio: "*Time and tide wait for no man*," ac mae yn rhaid i'r llong ddal y llanw, onide nis gall groesi y *Bar*—y man basaf rhyngom a'r môr.

Dyma ni i ffwrdd o'r diwedd; *steamio* yn hwylus i lawr yr Afon Mersey dros yr *Harbour Bar*, a rhoddi ffarwel i'r *pilot boat*. Yna, allan á ni fel saeth at y Gorllewin i'r *Irish Sea*. Yn hwylio yn awr yn ngolwg "Hen wlad y cenin," yn cael golwg fraf ar

"Erfawr fynyddau Arfon,
Hoff wyrth mawr a pharthau Môn."

Aem i ben y bont uchelaf ar y llong, ac yna ymestynem ar flaen ein traed i dreio gael cipolwg drwy'r yspienddrych ar Blumlumon a Thrichrug, Penbryn Amlwg a Banc y Fro—yn anwylach i mi nâ'r Wyddfa a Chadair Idris a'u holl olygfeydd rhamantus. Am a wn I, myfi oedd yr unig Gymro yn y *saloon* ar y fordaith allan; ac yr oeddwn yn ceisio dangos i'm cydfordeithwyr gyfeiriad "Dyffryn Aeron lon ddolenog," a desgrifiwn ei harddwch hyd y gallwn. Er fod llygad o gnawd yn rhy wan ei olygon i gyrhaedd mor bell, etto, gwelwn yn eithaf amlwg á

llygad y meddwl Aberaeron yn llechu rhwng y bryniau a rhestrau o dai gwynion ar lechwedd y Ceinewydd.

Mae cysgodau yr hwyr yn crynhoi, ac y mae'n rhaid meddwl am fyned i orphwys heb fod yn faith. Nid yw y rhagolygon ddim o gwbl yn bleserus! Bum yn ffortunus iawn, drwy ffafr cyfaill a adwaenai un o'r *managers*, i gael *state-room* heb ond un arall ynddi. Mae rhai yn gorfod cymmeryd pedwar! Boneddwr o gyfreithiwr o Boston oedd, ar ei daith adref, wedi bod yn yr *exhibition* yn Paris, a Llundain, &c. Pa bryd y bu cyfreithiwr ac Efengylwr yn cydwelya o'r blaen mor gytun? Yn moreu Cristionogaeth nid oedd nemawr gydgordiad rhwng y ddau ddosparth! ond efallai fod y byd yn gwella yn hyn! Myfi oedd i gysgu ar y *top shelf*, a'r boneddwr islaw i mi. Profiad hollol newydd i mi oedd dringo i fy ngwely—fel dafad i ben clawdd—fel pe bawn yn myned i orwedd i *stal* wair uwchben y *manger!* Ond cymmeryd calon sydd raid, ac ymlusgo i fyny drwy roddi un droed ar erchwyn gwely fy nghydymaith, a chodi'r llall a throtio i fewn. Ond wrth i mi wneyd hyn, am nad oeddwn yn gyfarwydd, doluriais fy nghrimog a tharawais fy mhen yn lled galed yn erbyn y *top*! O'r diwedd, dyma fi ar y *shelf*, ac yn ceisio gwthio dan y dillad fel pe bawn yn hwpio fy hun i ffetan! Y mae dillad y gwely wedi eu gwneyd i fyny yn y fath fodd!

Yn awr am lu o weledigaethau—yn fy meddwl wrth gwrs! Morwr gwael oeddwn erioed. Awn yn sâl weithiau ar *jaunt* yn y cwch bach yn Aberaeron. Nis gallaf ddweyd yn iawn pa un fwyaf ofn oedd arnaf na chysgwn o gwbl neu y byddai pwl o seilwch i'm cymmeryd yn nghanol y nos! Yr oedd arnaf gryn bryder am dynghed y cyfreithiwr odditanaf! Nid oeddwn yn teimlo un malais ato, a chan hyny, yr oeddwn yn dymuno iddo hun dawel! Ond os dygwyddwn gael fy nghymmeryd yn sâl, digon tebyg mai yn bendramwnwgl ar ei ben y deuwn! Efallai mai codi cyfraith arnaf a wnai o ganlyniad, a dychymygwn y cawn fy nwyn o flaen y *court martial*, ac y cawn fy nghondemnio yn euog fel Jonas gynt, ac mai dros y bwrdd y cawn fy nhaflu heb obaith am un morfil i gymmeryd trugaredd arnaf a'm dwyn yn iach i'r ochr draw! Tra yr oeddwn I yn cael fy nhryblu gan ragweliadau dychrynllyd ac yn methu cysgu o herwydd *motion* y llong a swn y *screw* yn chwyrnu ger y llyw, yr oedd y boneddwr odditanaf yn cysgu'n dawel, ac wrth y trwst a wnai casglwn ei fod ar ol y moch yn brysur! Ar ol troi a threiglo am gryn amser daeth esmwyth gwsg—"Magwres dyner natur lesg"—i'm cymmeryd yn ei chol, ac mi gysgais yn gampus drwy'r nos, yn cael fy siglo yn "nghynhyrfus gryd y dòn."

Mi godais gyda'r wawr boreu tranoeth, yn llawn adfywiad, ac yn teimlo fy hun yn forwr profedig a braidd yn arwr yn fy mod wedi concwero David Jones o'r diwedd! Cerddwn yn ol ac yn mlaen ar y *deck* fel ceiliog y pawyn yn ei lawn hwyliau, gan ymffrostio yn fy ngallu mordwyol! Gwell fuasai i mi gymmeryd ataf "gynghor prysur ma's o'r 'Scrythyr." "Nac ymffrostia o'r dydd yfory," &c. "Never crow till you are out of the wood," meddai'r ddiareb Seisnig. Cewch

wybod yn y nesaf pa fodd y daethum drwy'r *ordeal*—y tân-brawf, neu yn hytrach, y *dwfr*-brawf!

Lerpwl, Mai 23. LLWYD.

Y CHWECH SYNWYR.

'Rwy'n *gwel'd* y tonau'n tori ar y traeth,
'Rwy'n gwel'd y niwl i'r awyr yn ymdoddi—
Yr awyr i'r pellderau draw'n diflanu,
Ac ar bob llaw 'rwy'n gwel'd yr Angeu caeth.

Traed brysiog galar *glywaf* yn ddi daw,
A chlywaf chwerthin dynion yn troi'n ddagrau,
A chlywaf rwygiad myrdd o drist galonau,
Ac Angeu'n gwatwar Bywyd ar bob llaw.

'Rwy'n *bwyta* bara lludded ddydd 'rol dydd,
A dydd 'rol dydd 'rwy'n yfed bustl chwerwedd;—
Er bwyta ac yfed, etto eisieu rhyfedd,
Ac *archwaeth* malldod bedd ar bobpeth sydd.

'Rwy'n *teimlo*'r dydd tua'r hwyr yn oeri 'nawr,
Yn teimlo'r haul a'r tês yn troi yn gysgod,
A'r ia-wynt yn yr awyr yn gwneyd difrod,
A'r bedd yn barod yn mhriddellau'r llawr.

Arogli 'rwyf hen lwch mwynderau fu,
A sawyr treiddiol rawsg Darfodedigaeth,
A'r haint sydd yn cydfyned â marwolaeth—
Haint byth-bresenol yr hen Angeu du.

. . . . . .

Ond pell uwch ymrysonau'r ddaear fyw,
Ac hwnt uwch eangderau'r cylch gweledig,
Oddiwrth ein holl *synwyrau* yn guddiedig,
Yn ddwfn yn Nghydwybod dynol ryw,
Mae rhyw deimlad byth-arosol,
Rhyw leferydd distaw treiddiol,
Er edwino, er gwanhau,
Sydd heb ddarfod, yn parhau,
Sy'n dwyn ganddo ar ei rawd,
I gyfoethog ac i dlawd,
Yr unig obaith a barha'n dragwyddol.

Nid oes un bedd,—
Hynyna mae yn ganu,
Nid oes marwolaeth,—
Dyna mae'n lefaru;
Bywyd mewn bywyd sydd,
Bywyd yn Angeu fydd,—
Bywyd yn awr,
A bywyd byth i fod;
Bywyd ar y llawr—
A bywyd yn mhob man—
Is ac uwch y rhod!—C. L.

YR ALLTUD.

Dyn bychan oedranus oedd yn tynu, efallai, ar ei dri-ugain, gyda llygaid pruddaidd, ond llais melus, a gwên a yrai yn aml bob arwydd o bruddglwyf oddiar ei wynebpryd.

Darfu i William—prif swyddog mewn ty coginio yn un o'r trefydd—ymserchu ynddo y tro cyntaf y daeth i gyfarfyddiad ag ef, ac yn fuan cafodd allan fod Gruffydd, fel ei hunan, yn alltud wedi ei yru o'i wlad o herwydd ei syniadau gwleidiadol. Dywedodd William ei hanes wrth yr hen wr wedi hyn, a dywedodd yr hen wr rywfaint o'i hanes yntau wrth William. Yr oedd gwahaniaeth, mae'n wir, yn eu sefyllfaoedd mewn bywyd, oblegyd yn ei wlad ei hun troai Gruffydd mewn cylch uchel, tra nad oedd William ond peiriannydd dibrofiad.

"Ac yr ydych yn myn'd mewn gwirionedd!" ebai William. "Gwelaf eich eisieu yn fawr. I ble y bwriadwch fyn'd? I'r Eidal, i Ffrainc, neu i Rwssia? Clywais fod genych *engagements* yn yr holl wledydd hyn."

"Na, na," ebai Gruffydd yn drist, "nid i un o'r lleoedd hyn. 'Rwyf wedi gorphen a'r rhai'n i gyd—wedi gorphen a'r byd mewn ffordd. 'Rwyf yn myn'd adref."

"Beth!" ebai William a'i lygaid yn tanbeidio, "adref i'r hen wlad anwyl?"

"Na, na! byth yno mwy. Beth wahaniaeth am faddeuant brenin neu frenines? A all brenin wella calon doredig hyd y nod pe gallasai adfer fy meddianau? A allaf edrych heb ofid ar y bryniau a'r dyffrynoedd coediog a fuont unwaith yn eiddo i mi? A allaf fi gymdeithasu a'r bobl dda sydd yn preswylio yno heb dristwch? Na, William, na. Mae 'nghartref gerllaw Llundain—cartref yr alltud—yr unig ddinas yn yr holl fyd yn nghanol berw a tnwrw yr hon y gall alltud geisio annghofrwydd."

Oedai William ger y bwrdd am encyd: yr oedd mewn dwfn fyfyrdod.

"Gruffydd," ebai o'r diwedd, "cael gwaith yn Llundain sydd wedi bod i mi yn freuddwyd hoffus—yn gastell yn yr awyr; galwch e' beth

a fynoch. Atgas i mi yw y wisg o waseidd-dra yn yr hon y gwelwch fi. Mae adegau, Gruffydd, pan yr wyf yn cerdded fy ystafell drwy'r nos, yn wyllt fy meddwl, am y credaf fy mod wedi fy ngeni i bethau gwell! Etto, ceisiaf wneyd fy nyledswydd."

"Ie, ïe, ïe," ebai Gruffydd yn fwy bywiog nâ'i arfer. "Eitha' da—gwnewch eich dyledswydd. Hyderaf 'mod I yn gwneyd fy nyledswydd or mor isel yw. Na chaffed balchder ymyru â'r ddyledswydd hono. Peidiwch bod yn hunan-ymwybodol. Rho'wch eich holl fryd a'ch holl ysni yn eich gwaith, beth bynag fyddo. Credwch fi, William, mae rhyw ogoniant yn goreuro pen y dyn neu'r ddynes sy'n gwneyd yn galonog beth bynag yr ymaflo ei law ynddo i'w wneuthur, gan deimlo fod dyledswydd yn beth cyssegredig. Astudiwch i fod yn foddlon i'r cyflwr yn yr hwn y mae Rhagluniaeth wedi eich gosod. Astudiwch hyny, astudiwch hyny"

"Ond, Gruffydd, a adawech chwi uchelgais allan o'r cwestiwn?"

"O na; ond gadewch i'ch uchelgais fod yn wasanaethgar i'ch dyledswydd. Mae ymgyrch deall—ymgyrch y byd—o hyd rhag ei flaen. Gwellwch eich hunan ar bob cyfrif os medrwch; wrth hyny gallwch wella'r byd. Ond ni ddylai meddyliau uchelgeisiol byth ymhyru â'ch oriau llafur. Perthynant hwy i'ch me str, William. Gyda llaw, dyma drwydded i chwi i'r gyngherdd heno. Aroswch i mi ar y diwedd, a chawn swpper gyda'n gilydd."

Yr oedd Gruffydd yn grythwr ardderchog, a byddai unrhyw gerddorfa yn Ewrop yn falch i'w gyflogi, a rhoi tâl da am ei wasanaeth. Ond er nad yn gyfoethog, nid oedd ef byth yn yr unfan. Crwydrai o wlad i wlad.

Bu y noson hono yn bwysig yn nhynghed William. Swpperodd gyda Gruffydd, a chyda gwir foesgarwch ychydig neu ddim ddywedodd yr hen wr am dano'i hunan, ond arweiniodd y gwr ieuanc i adrodd wrtho ei holl obeithion a'i gynlluniau.

Cynllun mawr William oedd yn nglyn â thrydaniaeth, nid yn unig i oleuo tai, ond fel gallu ysgogol y dyfodol, a gwyddai Gruffydd ddigon am fferylliaeth i ganfod y byddai i gynlluniau William, trwy gael eu gweithio allan yn briodol, ei arwain i enwogrwydd. Cyn ymadael, cytunodd y ddau i fyned gyda'u gilydd i Loegr.

Mae yr olygfa yn ein symmud i dy bychan, destlus, yn un o siroedd deheuol Lloegr. Saif ar lechwedd bryn prydferth, yn gladdedig bron mewn coed gwyrdd-ddeiliog.

"Ie, William," ebai Gruffydd tra yr eisteddai'r ddau mewn pabell fechan ar y lawnt, "'dyw'r ty, y gerddi, na'r wlad odidog, ddim yn ymddangos yr un oddiar y darfu i Mair, fy merch, fy ngadael. 'Dyn nhw ddim yr un, oblegyd yr wyf fi yn hynach 'nawr. 'Alla' I ddim gweled â'r un llygaid na chlywed â'r un clustiau: ymddengys fod caddug y bedd yn dechreu ymgau oddiamgylch i mi."

"Ond fe all Mair, eich merch, dd'od 'nol."

"Na, y balchder a barodd iddi fyned a'i rhwystra i ddod 'nol. Ni ddaw hi byth yn ol."

Yr oedd William yn ddystaw.

"Ychydig eiriau brysiog, a rheiny gen' I—ychydig achwyniadau ar y dynged a ddarfu fy ngyru o wlad fy ngenedigaeth, a'm hamddifadu o'r teitlau a feddwn—i ddirwyn allan fywyd truenus mewn gwlad ddyeithr trwy gymhorth fy nghrwth. Nid oeddwn yn golygu awgrymu fy mod yn achwyn ar y llafur oedd yn ei chadw hi fel boneddiges, ond ofnwyf iddi hi gredu hyny; a buaswn yn foddlon, y foment nesaf, i osod fy mywyd lawr pe gallaswn dynu fy ngeiriau creulawn yn ol; ond y funyd nesaf yr oedd Mair wedi myn'd. Wedi myn'd—ïe, wedi myn'd, a dagrau ar ei gwyneb, ac, fe ddichon, calon doredig, ac oddiar hyny yr wyf wedi ceisio ac wedi cael ymrwymiadau yn mhrif drefydd Ewrop. Hyd yma, yr wyf wedi bod yn crwydro gan dybied, o hyd, y cawn I afael yn Mair; oblegyd dywedodd 'yn nodyn bychan—yr unig un a dderbyniais, ei bod cyn belled yn annybynol, ac mai ar ei llais yn unig yr hyderai am ei bywoliaeth. Ond yr wyf fi yn flin ac yn druenus."

Ac felly yn wir yr edrychai.

Aeth blwyddyn heibio. Ni ymddangosodd yr heu wr mwyach mewn un gerddorfa. Yr oedd gobaith ei hun wedi dianc o'i galon, a thristäai am ei ferch fel am un nad oedd mwy.

Yr oedd William yn fynychydd i'r tŷ ar y llechwedd. Helpai Gruffydd ef yn ei uchelgais, a daeth yn feistr ar bob anhawsder, ac yr oedd eisoes a'i droed ar ffon isaf yr ysgol sydd yn arwain i anrhydedd.

Dygai ei waith ef yn aml i'r Eidal ac i Rufain, enwog yn ei gorphenol.

Cymmerodd amgylchiad le, yr hwn sydd yn gyffredin ddigon yn mywyd y rhan amlaf o ddynion ieuainc—syrthiodd William mewn cariad.

'Dwyf fi ddim yn ei feio, oblegyd yr oedd holl Rufain wedi ei syfrdanu gan lais melus a dullwedd swynol cantores ieuanc a ddygwyd allan yn ddiweddar gan feistr enwog mewn cerddoriaeth.

Noswaith ar ol noswaith, pryd bynag y canai, yr oedd William yno, yn gwrando mewn perlesmair. Ond methai gael ei gyflwyno iddi. Yr oedd mor agos ac etto mor bell.

Wrth fyn'd adref yn hwyr un noson oddiwrth y dyledswyddau oeddynt wedi galw am ei sylw am yn agos i wyth awr a deugain heb fawr hamdden i gysgu, clywodd y waedd ddeffrous "Tân!" Dylynodd y dorf a'r peiriant afler trwy heol dywyll, gul, yr hon, a barnu wrth y gwreichion a'r mwg, a ymddangosai yn dân o ben bwy gilydd. Aeth William ar bwys yr adeilad oedd ar dân, a helpiodd i weithio'r peiriant. Ond yr oedd gwaith arall a dewrach yn ei aros. Fry yn y ffenestr, dacw wynebau pobl ieuainc a phlant yn wallgof gan fraw. Pwy a ddringa yr ysgol fratiog yna trwy y gwreichion a'r mwg? Pwy anturia i'w hachub? Mae William yn barod. Neidia at yr ysgol: lawr a lan, lawr a lan, ac mae wedi achub tri. Mae wedi ei losgi yn ofnadwy, ond nid oes dim yn ei droi yn ol. Y diweddaf a arbeda, er ei syndod, os nid er ei lawenydd, yw y gontores ieuanc. Tra y cludir hi ymaith mewn dyogelwch, mae ef yn llewygu ac yn cwympo.

A dau ddiwrnod heibio cyn y daw i'w synwyrau yn y gwesttŷ. Fe ofyn wythnosau cyn y bydd yn holl iach. Be' wahaniaeth. Daethai *hi* bob dydd i'w weled, ac holi am ei helynt.

Nid oedd yn ddim amgen na'r hen, hen, hanes. Ond ni ddywedodd efe mo hono y pryd hwnw. Dywedodd wrth y gantores ieuanc hanes o nodwedd wahanol, am dŷ tlws yn nghanol prydferthion anian yn neheubarth Lloegr, ac am hen wr oedd yn marw o dristwch am na ddeuai ei ferch byth yn ol. A phlygodd yr eneth ei phen, ac ochen-eidiodd, a darfu i'r dagrau hyny ddweyd yr oll wrth William.

Yr oedd llawenydd yn y tŷ ar lechwedd y bryn pan ddaeth Mair yn ol. Gyda hi y daeth tes—tes i aderyn a blodeuyn a choeden, a thes i galon Gruffydd. Mae tŷ mwy yn awr yn nghanol y coedydd deiliog ar ael y bryn. William yw ei berchenog cyfoethog, Mair ei feistress. Ac hir yn wir fyddai y diwrnod na ddygai iddynt ymweliad oddiwrth yr hen wr caredig, Gruffydd.

NODYNAU GWASGAROG.

HAWL PAWB.

Myn rhai fod pawb yn cael eu geni i'r byd yn gyfartal o ran gallu-oedd a chyuneddfau; a bod pawb yn cael eu geni yn gyfartal o ran eu hawliau. Tybiwn fod y gosodiad cyntaf yn gyfeiliornus iawn, ond caniatawn fod rhai breintiau ag y mae gan bawb hawl gyffelyb iddynt? Carai rhai osod pawb ar yr un *footing*, a rhoi i bob gweithiwr yr un gyflog. Ni fyddai yn deg meddai ereill i dalu yr un faint i'r gwr diog a'r diwyd. Os ennilla un 3s. 6c, rhodder iddo 3s. 6c., wrth gwrs, ac i'r un a ennillo 2s. 6c., rhodder yr 2s. 6c., byddai hyny yn decach na phob o 3s. iddynt. Myn rhai y dylid gwneyd dosparthiad cyfartal o holl eiddo y deyrnas, a chychwyn pawb gyda'r un swm; pe gwnelid hyny, ni fyddid 24 awr cyn y byddai yr annghyfartaledd yn dechreu drachefn. Ni ddylid, ac ni ellir gosod y cynnil a'r gwastraffus ar yr un *footing*.

T. L. R.

"Then gently scan—your brother man,
Still gentler sister woman;
Though they may gang, a kennin wrang—
To step aside is human."—*Burns.*

"Yn dyner barna'th frawd gwrrywaidd,
Ac yn fwy felly'th chwaer fenywaidd;
Os ânt o chwith, e ddylid cofio
Agored ydyw dyn i wyro."—*Watkin Bevan, Nottage.*

GWYBODAETH.

Ceisiwn wybodaeth er mwyn y pleser o wybod, ac nid yn unig er mwyn yr arian a ddichon gynnyrchu. Meithrinwn gariad at wybodaeth er ei fwyn ei hunan, ac fe ddaw pleser oddiwrtho. A oes gan fenyw un asen yn fwy na gwryw? Pa nifer o ddannedd ddylai fod gan blentyn tair blwydd, gan ddyn 21, gan ddyn 45, os heb golli un? A oes gwahaniaeth yn y modd y mae gwahanol adar yn yfed dwfr? Ai yn yr ún modd y mae ceffyl a buwch yn codi ar eu traed? Beth ydyw nifer coesau coryn?—cylionen? Q. Q.

CYMMANFA GERDDOROL UNDODIAID RHAN UCHAF CEREDIGION.

Mae y gymmanfa hon yn dynesu atom eleni etto, sef Mehefin yr 16eg. Mae cymmanfaoedd yr ysgolion wedi pasio heibio yn brydlawn, gan roddi mis o amser o leiaf i ddysgu'r gweddill o'r tonau a ddichon fod etto heb eu dysgu ar ei chyfer. Da genym fod y dosparth canol o'r ysgolion wedi gweled eu ffordd yn glir i newid amser eu cymmanfa hwy, fel na fyddo hi fel y llynedd â dim ond wythnos rhwng y ddwy.

Bellach, yr ydym yn gobeithio fod ein cantorion bron a bod yn barod—y tonau a'r emynau wedi eu trysori yn dda, y meddyliau yn fywiog, y lleisiau yn glir a soniarus, yr ewyllys yn rhwydd, a phawb wedi penderfynu bod yn bresenol; yna ceir cymmanfa lewyrchus.

Cofier hefyd am y *rehearsals* sydd i fod y Sul o flaen y gymmanfa, pan y bydd Mr. Thomas Davies, yr arweinydd, yn myned oddiamgylch i'w cynnal. Mae yr un ddeg o'r gloch wedi ei chyfnewid eleni i fod yn Cribin yn lle Rhydygwin, am (1) fod y gymmanfa yno dranoeth, ac (2) fod capel y Cribin yn fwy cyfleus, gan nad ydyw Ciliau ddim yn cymmeryd rhan ynddynt. Fel y gwyr pawb, yn Nghapelygroes mae'r *rehearsal* am ddau i fod; ond gan fod yr hen gapel wedi ei dynu i lawr, a'r capel newydd heb ei adeiladu, cynnelir hi yn ysgoldy Llanwnen. Bydd yr un am chwech o'r gloch yn Mrondeifi fel arfer.

Yn awr, gantorion, gofalwch fod yn bresenol, ac yn brydlawn, yn y *rehearsals* yn gystal ag yn y gymmanfa. Trwy hyny, gallwn ddangos i'r wlad y medrwn gynnal cymmanfa gerddorol o'r fath oreu a mwyaf effeithiol.

Llanbedr. W. Williams, Ysg.

IOLO MORGANWG.

Nid wyf yn gwybod fod cofres o erthyglau ar Iolo wedi ymddangos erioed. Felly, dyma ddechreu:—*Memoir* gan Elijah Waring; Cofiant gan Thomas Stephens yn Yr Ymofynydd (1852—3); *Cofiant* (llyfryn swllt) gan J. D. Thomas, Caerfyrddin; eiddo D. Lloyd Isaac yn *Seren Gomer* (1852); eiddo Morgan Williams yn y *Red Dragon*. Ceir byw-

graffiadau hefyd yn Mywgrafflyfrau Foulkes Liverpool a J. T. Jones, Aberdar; ac erthygl fechan yn *Cymru Fydd* am Chwefror, 1890.

T. C. U.

SEISNIGO CYMRU.

Y mae Cymry'r dyddiau hyn yn ceisio dynwared cerddediad cenedl arall. Y mae Sais yn nghanol Lloegr yn rhoi arwydd Seisnig uwchben ei siop,—rhaid i siopwr yn nghanol mynyddoedd Cymru gael rhoi arwydd Seisnig uwchben ei siop yntau. Y mae i'r Sais acen ar ei Saesneg,—nid yw yr un fath yn mhob rhan o'r wlad,—a rhaid i'r Cymro gael yr acen ar ei Saesneg yntau, ie, rhaid iddo gael yr acen Saesneg ar ei *Gymraeg* weithiau. Bydded ini ddysgu cerdded yn well well, ond nid drwy geisio gwneyd pob peth fel Saeson y gwnawn bethau oreu. *Fel Cymry* rhaid ini gerdded, a gallwn wneyd Cymry iawn os mynwn.—*Cymru Fydd.*

Manion ac Hanesion.

Mae y Parch. E. D. Priestley Evans, mab y diweddar Barch. Owen Evans, yr hwn sydd yn bresenol yn weinidog yn Loughborough, wedi derbyn galwad unfrydol i ddyfod yn weinidog i Kidderminster. Yr ydym yn deall fod Mr. Evans wedi ateb yr alwad yn gadarnhaol. Dymunwn lwyddiant iddo yn ei gylch newydd.

Mae yr Undodiaid yn Nghaerdydd wedi bod yn cadw *Bazaar* yn ddiweddar yn yr ysgoldy perthynol i'r capel, ac wedi cyflwyno yr elw at leihau y ddyled sydd ar y capel.

Peidiwch bod yn galed ar y dyn sy'n dwrdian ei wraig yn gyhoeddus: dichon mai dyna yr unig amser y meiddia wneyd hyny.

Ni wyr neb lle mae esgid un arall yn gwasgu.

Gwnewch yr hyn a ddylech, boed y canlyniad yr hyn a fyddo.

Cynnaliwyd cymmanfa flynyddol yr Ysgolion Sul canlynol eleni yn nghapel Alltyplacca, ar ddydd Mercher, Mai 14. Dechreuwyd cyfarfod y boreu am ddeg gan y Parch. J. Davies, y gweinidog. Wedi myned trwy y rhan ddefosiynol a chanu mawl, adroddodd ysgol y lle y bumthegfed bennod o'r Efengyl gan Ioan a holwyd gan y gweinidog. Ar ol yr ysgol hon adroddodd ysgol Caeronen Matthew xi., a holwyd gan y Parch. W. Rees, Rhydygwin. Wedi canu emyn a gweddio, terfynwyd cyfarfod y boreu. Yn y capel yr oedd darpariaeth o luniaeth wedi ei pharotoi ar gyfer y gwahanol ysgolion ac ereill. Dechreuwyd cyfarfod y prydnawn drwy adrodd pennod gan un o ysgol Brondeifi, a gweddi ddwys gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, wedi yr hyn yr adroddodd ysgol Brondeifi Ephesiaid iv., y Parch. J. Davies, Alltyplacca, yn holi, ac ysgol Capelygroes Ioan v., Mr. Thomas, y gweinidog, yn holi. Wedi canu emyn a gweddio, terfynwyd cwrdd y prydnawn. Yn sicr ddigon, yr oedd yr holl ysgolion ar eu heithaf, ac yn oreu i gyd o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd y canu eleni yn undebol, ac yn rhagorol ag ystyried cymmaint oedd anfantais y cantorion, am na chanasent gyda'u gilydd cyn y diwrnod hwn. Na lesghewch yn y dyfodol. Mae y gymmanfa gerddorol wrth y drws; ac ewch rhagoch o'r llai perffaith at y mwy perffaith. Cynnelir y gymmanfa y flwyddyn nesaf yn Nghapelygroes.—T. J.

ALLTYPLACCA. — Cynnaliodd ysgolion dosparth uchaf Ceredigion, sef Alltyplacca, Brondeifi, Caeronen, a Chapelygroes, eu cymmanfa flynyddol yn y lle uchod dydd Mercher, Mai 14eg. Daeth yr ysgolion yn nghyd yn dra lluosog, a gallem feddwl wrth ystyried pob peth eu bod yn dal eu tir yn lled dda. Pa faint o gynnydd sydd yn cael ei wneyd, os oes sydd anhyspys ond i'r cyfryw ysgolion eu hunain. Ai ni fyddai yn gyfleusdra rhagorol i wneuthur adroddiad o sefyllfa pob ysgol yn y cymmanfaoedd hyn? A fyddai gwybodaeth o'r fath ddim er mantais i ni fel enwad? Credaf y byddai. Gallai yr adroddiad ddangos sefyllfa isel ryw ysgol, ddwysbigo'r cyfryw i fwy o weithgarwch yn y dyfodol; gallai fod yn foddion i symbylu'r ysgolion i fwy o ffyddlondeb a gweithgarwch er cael adroddiad da, gallai cynnydd a llwyddiant un ysgol adael argraff ddymunol ar rai ereill, mewn gair, gallai wneuthur llawer mewn gwahanol gyfeiriadau —HEVIN.

Ebrill raf, cadwyd Cylchwyl Flynyddol Ysgol Sul Pantdefaid. Yr oedd y tywydd yn ffafriol iawn, a chafwyd cyfarfod lluosog fel arferol. Cafodd plant yr ysgol a llawer ereill eu gwala a'u gweddill o fara brith a the. Bu gwragedd da'r gynnulleidfa a'r merched ieuainc yn ogystal yn ffyddlon i'r eithaf. Ni byddai yn iawn enwi neb heb enwi pawb oedd yn gweini, yr hyn ni fyddai yn gyfiawnder â gofod YR YMOFYNYDD. Yr ydys yn teimlo yn ddiolchgar i bawb yn ddiwahaniaeth am eu cynnorthwy caredig ar yr achlysur uchod fel ar amryw achlysuron cyffelyb Wedi darfod â r te a chlirio'r byrddau cafwyd adroddiadau, dadleuon, a thonau mewn amrywiaeth mawr o un eithaf i'r llall. Yr oedd y capel yn orlawn—y llawr a'r oriel. Cynnrychiolid yno holl gymmeriadau y plwyf braidd. Gorphenwyd y gwaith tua deg o'r gloch o'r nos, a theimlai pawb ei bod yn llawn bryd i fyned tua thref.—P.D.

CAPELYFADFA —Cafodd y Parch. W. J. Davies y fraint o dderbyn deuddeg o aelodau newyddion i'r eglwys uchod fis yn ol. Y mae gwedd lewyrchus ar yr achos yn y Bwlch yn bresenol. Hir y parhao felly. Dydd Sul y Pasc talodd Ysgol Llwynrhydowen eu hymweliad blynyddol ag Ysgol y Bwlch. Er fod yr hin yn wlyb yr oedd y cynnulliad yn ol tystiolaeth henafgwyr y lle yn fwy nag a welwyd erioed yno. Yr oedd y capel yn llawer rhy fach i'r dorf. Canodd Cor y Llwyn, o dan arweiniad Mr. John Jones, Felin, Rhydowen, a Chor y Bwlch, o dan arweiniad Mr. Thomas Thomas, Greengrove, yn swynol dros ben. Holodd y Parch. W. J. Davies y ddwy ysgol yn ystod y dydd.

LLWYNRHYDOWEN. — Gan nad oedd pwyllgor rheolaidd wedi ei appwyntio ar ol marwolaeth y Mri. Jones, Gellifaharen, a Thomas, Siop, penderfynasom appwyntio pwyllgor gweithiol er cario allan drefniadau cyssylltiedig â'r eglwys. Appwyntiwyd 13 o foneddigion a 6 o foneddigesau i fod ar y pwyllgor. Llawen genym nodi fod Mrs. Jones, Gellifaharen, wedi ei hethol yn unfrydol yn gadeirydd, a'r Cadben Davies, Rhydowen, yn Is-Gadeirydd. Yn ystod y misoedd diweddaf y mae y gweinidog wedi derbyn aelodau newyddion yn fisol. Ar gynnydd yr elo'r eglwys yw dymuniad—CYFAILL.

LLANDYSSUL.—Y mae y cynnulliad yn Llandyssul wedi cynnyddu oddiar pan y sefydlodd y gweinidog presenol yma. Y mae yn dda genym grybwyll fod iechyd y Parch. W. James, B.A., yn llawer gwell nag y bu. Rhydd Mr. James bob cefnogaeth yn ei allu i Mr. Davies. Dydd Sul, Mai 25, yr oedd Ysgol Llandyssul yn ateb. Arholydd, y Parch. W. James, B.A. Trwy garedigrwydd Mr. James galluogwyd Mr. Davies i gael ail *rehearsal* gyffredinol o'r cor yn nghapel newydd Llwyn gyferbyn a'r gymmanfa dranoeth. Y mae yn ddrwg genym fod iechyd Mr. Evan Evans, Trysorydd y Graig, wedi bod yn wael er ys misoedd bellach. Gobeithiwyf y ca adferiad buan.

Marwgofion.

Mawrth 21, yn ddisymwth iawn, bu farw Margaret, anwyl briod Stephen Jenkins, Minffordd, ger Penpontbren, Llandyssul, yn 69 oed. Yn Pantyfyda, ger Llanfihangel, Rhosycorn, yr oeddynt yn byw cyn iddynt ymsymmud yn ddi-

weddar i'r lle uchod, a hyny yn benaf oblegyd fod eu merch wedi priodi â Thomas Thomas, Plasllwyd. Claddwyd yr ymadawedig y dydd Mawrth canlynol yn Pantdefaid. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur. Na foed i'w phriod a'i phlant alaru yn ormodol, ac fel rhai heb obaith ganddynt. Mae Iesu Grist yn dweyd wrth bawb, "Byw ydwyf fi a byw fyddwch chwithau hefyd."

Ebrill 6, Mrs. Jennet Watkins, Harriet St., Aberdar, yn 76 oed. Gwasanaethwyd ar ddydd yr angladd, yn y tŷ, ac yn absenoldeb gweinidog yr H.D.C., yr hwn oedd yn y Cyfarfod Chwarterol yn Abertawe, gan y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach. Claddwyd yn mynwent Eglwys Penderyn. Claddwyd ei gwr, Mr. David G. Watkins, Medi 1, 1855, yn 48 oed. Hen wraig dawel a diniwed oedd Mrs. Watkins, lluosog ei chydnabod a pharchus gan bawb. Caffed y plant a'r wyrion fodd i ymdawelu yn addewidion yr Efengyl a broffesant.

"Yma cwrdd i 'madael wnawn
Nid felly yn y nef."

Ebrill 22, yn Lincoln, Ill., o'r dyfrglwyf, Stephen Evans, yn 71 mlwydd a mis oed. Yr oedd yn frawd i'r gwyr adnabyddus y Meistri David Evans, Troedyrhiw, Merthyr, a John Evans, Castellnewydd Emlyn. Ganwyd ef yn Sir Gaerfyrddin, Rhagfyr 25, 1818; ac yno y treuliodd yr ugain mlynedd cyntaf o'i oes. Wedi hyny symmudodd i Ferthyr Tydfil, ac yna i Droedyrhiw gerllaw, lle y bu hyd 1868, lle yr ennillodd gryn enwogrwydd am ei uniondeb fel masnachydd, a'i gywirdeb yn yr oll a gyflawnai. Wedi ymfudo i America, sefydlodd yn St. Louis, a bu yn trigianu yno am flynyddau. Deng mlynedd yn ol symmudodd i Lincoln, lle yr aeth i bartneriaeth a'i lys fab J. F. Cull, yn y fasnach gyfferi. Yr ydym yn deall ei fod wedi esgyn i safle anrhydeddus mewn cymdeithas, ac yn ddyn yr edrychid i fyny ato gan bawb a'i hadwaenent. Gadawodd weddw a Mr. Cull a pherthynasau i alaru ar ei ol. Boed iddynt ymgyssuro yn y meddwl fod yr hwn yr wylant eu colled am dano yn awr mor anwyl ac mor barchus gan bawb tra yn fyw, ac wedi marw, mae yn llefaru etto, a'i rinweddau yn arogl bywyd ifywyd.

Ebrill 25, yn ei chartref yn Givin, Iowa, ar ol cystudd blin am tua dau fis o'r *la grippe*, Jane, anwyl briod Mr. Thomas D. Rees. Ganwyd hi yn Rhydceir, ger Llandyssul, Sir Aberteifi, D. C., Hydref 21, 1814, felly yr oedd yn 75 mlwydd, 5 mis a 27 o ddyddiau oed. Hanai o ochr ei mam o deulu hynafol yr hen fardd clodwiw Dafydd Llwyd, o Brynllefrith, ac yr oedd yn gyfnithder i'r diweddar Ddr. Lloyd, o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin. Ymrestrodd yn foreu dan faner crefydd yn y ffydd Undodaidd, yn yr hon ffydd yr hunodd yn ddisigl yn y diwedd. Priodwyd hi a'i phriod presenol, yr hwn sydd wedi ei adael mewn unigedd i alaru ei golled, yn hen Eglwys Llandyssul yn 1839. Symmudodd hi ar ol ei phriod i Dowlais, Sir Forganwg, yn 1851; ac ymfudasant fel teulu i'r Talaethau Unedig yn 1869. Buont yn aros am ychydig ar Summit Hill, Pa., yna yn Coal Valley, Ill., a Brazil, Ind., cyn dyfod i Givin, lle y maent wedi cartrefu er's 17 o flynyddoedd. Y mae yr hen wr yn dderbyniwr cysson o'r *Drych* er pan yn y wlad. Bu iddynt chwech o blant, tri o'r rhai sydd yn huno yn dawel yn mynwent Hen Dy Cwrdd, Cefncoedycymmer, gerllaw Merthyr, D. C. Cafodd y tri arall y fraint o wylio, amgylchu a dyddanu eu mam yn ei chystudd olaf, sef Mrs. George Brown, Jenkin Rees a Thos. B. Rees. Claddwyd hi ar y 27ain, yn y fynwent berthynol i'r lle, sef Henessy, pryd y gweinyddwyd gan y Parch. Lloyd Williams, o Oskaloosa. Yr oedd yn un o'r angladdau mwyaf a fu yn Givin erioed. Trodd bron pob Cymro o gerddor yn y gymmydogaeth allan, ac yr oedd y canu ar yr hen donau Cymreig yn fendigedig, am yr hyn ymddangosiad o barch derbynied pawb ein diolchgarwch gwresocaf dros y teulu. Ei mab—GWYNLAS. (O'r *Drych*).

Mai 16, Philip David Rees, maban R. J. Jones, H. D. C., Aberdar. Ganwyd Mawrth 20, 1889. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parchn. E. W. Lloyd a J. J. George.

"Aeth diniweidrwydd at ei Dduw."

"Ere sin could blight or sorrow fade
Death came with friendly care;
The infant bud to heaven conveyed
And bade it blossom there."

GEORGE'S POPULAR REMEDIES.

AT Y CYHOEDD.

Erfynir arnom yn fynych i roddi hyspysrwydd o'r holl Ddarpariaethau Meddyginiaethol a wneir genym. Wele yn canlyn *list* o'r prif rai :—

GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS. Y mae y Feddyginiaeth hon yn rhy adnabyddus drwy yr holl fyd i alw am ragor o hyspysrwydd yma. Digon yw dweyd fod "Dr Quain's Dictionary of Medicine"—y llyfr meddygol pwysicaf a ddaeth allan o'r wasg erioed, heddyw, yn cydnabod mai yr egwyddor fawr ar *yr hon y mae y Feddyginiaeth uchod yn sylfaenedig*, yw yr unig wir egwyddor yn ol pa un y dylid trin holl ddoluriau perthynol i'r Ymysgaroedd, yr Arenau, y Cylla, a'r Afu Yr ydym yn gwneyd y ffaith bwysig hon yn hyspys fel ag i wneyd pawb sydd yn defnyddio y Peleni bydenwog hyn deimlo yn sicr eu bod yn chwilio am wellhad ar linellau ag y mae perffeithrwydd Celfyddyd Feddygol yr oes hon yn gymmeradwyo a'i orchymyn.

—o—

GEORGE'S AMERICAN RHEUMATIC LINIMENT, neu "*American Marvel.*" Hon ydyw y Ddarpariaeth fwyaf poblogaidd yn yr holl fyd at y GWYNEGON, LUMBAGO, SCIATICA, CYMALAU STIFF, CRAMP, STIFF JOINTS, CHWYDDIADAU, CLEISIAU, YSIGIADAU, DOLUR Y GWDDF, QUINSY, GWENDID YN YR AELODAU, INFLAMMATION, a holl boenau *lleol* ereill.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 1/1½ *yr un. Drwy y Post*, 2/- *a* 1/4.

—o—

GEORGE'S STOMACH AND LIVER TONIC.—Yr ydym yn gwarantu y gwna y Feddyginiaeth hon AWCHU Y CYLLA AT FWYD, CYNNORTHWYO TREULIAD BWYD, PURO Y GWAED, CRYFHAU'R GEWYNAU, SIRIOLI'R YSPRYDOEDD, ADDFEDU AC ABLLWYS POB HYLYF AFIACH A LLYSNAFEDDOG O'R CORFF.—*Mewn poteli*, 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S TIC MIXTURE.—Symmuda hwn y dolur a elwir TIC, (neu TICTOLORW) a'r RHEUMS mewn ychydig oriau.—*Mewn poteli*, 1/9 *a* 2/9 *yr un. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

GEORGE'S CAMBRIAN TONIC VOICE LOZENGES.—Nid oes eisieu ond enwi cefnogwyr y *Voice Lozenges* hyn er profi mai hwy sydd ar y blaen at GRYFHAU a PHEREIDDIO y llais. Dyma ychydig o honynt :—Madame EDITH WYNNE, Dr. PARRY, OWEN ALAW, EOS MORLAIS, LLEW LLWYFO, JAS. SAUVAGE, D. JENKINS, Mus. Bac., JNO. THOMAS, CARADOG, &c, &c.. *Pris* 6ch. a 1/-. *Gellir cael y Blwch* 1/. *gyda'r Post am* 1/2 *mewn stamps.*

—o—

GEORGE'S CURE FOR BRONCHITIS.—Meddyginiaeth effeithiol at wella "BRONCHITIS." *Mewn poteli*, 2/6 *yr un. Nis gellir danfon hwn gyda'r Post.*

—o—

"FLATULINE."—Meddyginiaeth hynod effeithiol er symmud GWYNT O'R CYLLA A'R YMYSGAROEDD. *Pris*, 1/1½ *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"ASTHMALINE."—Darpariaeth gwir werthfawr at DDIFFEG ANADL. *Pris* 1/9 *a* 2/9 *y botel. Nis gellir ei ddanfon gyda'r Post.*

—o—

"DR. CRYNANT'S PLASTER." (Established 40 Years.) Hwn ydyw y Plaster mwyaf hynod yr oes at wella Ysigiadau, Briwiau, Toriad Asgwrn, Clwyfau, Gwendid yr Aelodau, Lumbago, &c. *Mewn Packets*, 7½c. *a* 1/1½ *yr un. Yr un mwyaf drwy y Post am* 1/3 *mewn stamps.*

PERCHENOG :—

J. E. GEORGE, M.R.P.S.,

Hirwain.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.